# Cynnal gweithdrefnau cyn ac ar ôl teithiau merlota

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynnal gweithdrefnau cyn ac ar ôl teithiau merlota. Gallai'r gweithdrefnau hyn gynnwys helpu cleientiaid i fynd ar gefn ac oddi ar gefn ceffylau, addasu harneisiau fel y bo angen a gofalu ar ôl y ceffylau ar ôl dychwelyd o'r daith. Bydd yn ofynnol i chi gynorthwyo cleientiaid sydd yn ddechreuwyr ac yn farchogion galluog.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cynnal asesiadau cyn y daith ferlota, yn unol â'r cyfarwyddiadau
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. gwirio addasrwydd harneisiau a harneisio'r ceffylau yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. cynorthwyo marchogion i fynd ar gefn ac oddi ar gefn ceffylau o'r ddaear ac o floc esgyn
6. addasu hyd y gwartholion a'r ffrwynau i gyd-fynd â marchogion unigol yn ôl y galw
7. adnabod a hysbysu arweinydd y daith ferlota ynghylch sefyllfaoedd peryglus
8. cynnal gweithdrefnau ar ôl y daith ar gyfer y ceffylau a'r marchogion, yn unol â'r cyfarwyddiadau
9. gwirio iechyd a chyflwr y ceffylau ar ôl dychwelyd o'r daith ferlota
10. rhoi dwr i'r ceffylau a'u gwneud yn gyfforddus yn unol â'r tymor a lefelau gwaith
11. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. pam y mae'n bwysig dilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithgareddau merlota
3. y peryglon posibl yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth fynd ar gefn ac oddi ar gefn ceffylau o'r ddaear ac o floc esgyn
4. y gofynion yswiriant ar gyfer sefydliadau merlota
5. pwysigrwydd cysylltiadau cwsmeriaid da
6. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
7. pam y mae'n bwysig adnabod harneisiau sydd wedi eu gosod yn wael, sydd wedi torri neu sydd yn anniogel
8. y mathau gwahanol o deithiau merlota a gofynion teithiau merlota byr a hir a'r gwahaniaethau tymhorol
9. y gweithdrefnau ar gyfer asesu'r ceffylau a'r cleientiaid cyn merlota, yn cynnwys gwiriadau iechyd ac unrhyw ddogfennau cofrestru neu iechyd angenrheidiol
10. sut a phryd i ddefnyddio numnahs a phadiau cyfrwy
11. sut i harneisio, diharneisio ac addasu harneisiau ar gyfer esmwythdra a diogelwch
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cynorthwyo gyda theithiau merlota yn cynnwys:

- dechreuwyr
- marchogion cymwys

## Geirfa

Harneisiau ac offer:

- PPE a hi-vis posibl
- ffrwynau
- cyfrwy
- strap gwddf
- numnahs amddiffynnol

Cynnal gweithdrefnau cyn ac ar ôl teithiau merlota

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq228 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; taith ferlota; marchogaeth; mynd ar gefn; mynd oddi ar gefn; iechyd a lles anifeiliaid |